

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	Tachwedd 22ain 2023
TEITL	Materion Cenedlaethol
PWRPAS	Gwybyddu Aelodau
AWDUR	Swyddog AHNE
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am ddau fater cenedlaethol a fydd o ddiddordeb i aelodau. Yn gyntaf mae Llywodraeth Cymru yn trefnu hyfforddiant i aelodau'r Parciau Cenedlaethol a'r Cydbwyllgorau AHNE ac yn ail mae trefniadau ar y gweill i newid enw gweithredol a brandio yr AHNE.

2.0 HYFFORDDIANT AELODAU

2.1 Yn ddiweddar anfonwyd llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS i sylw Arweinwyr Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol a Chadeiryddion y Parciau a'r Cydbwyllgorau AHNE.

2.2 Yn y lythyr mae'r Gweinidog yn nodi fod y Tirweddau Dynodedig yn bwysig iawn i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran yr argyfwng natur a hinsawdd. Eir ymlaen i ddweud ei bod yn bwysig fod gan arweinwyr ac aelodau'r sefydliadau hyn yr wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gyfer y gwaith. Ar sail hyn nodir fod swyddogion yn y Llywodraeth wedi datblygu pecyn hyfforddiant ar-lein ar gyfer aelodau y Parciau Cenedlaethol a'r Cydbwyllgorau AHNE.

2.3 Mae 2 faes hyfforddiant yn berthnasol i aelodau'r Cydbwyllgor AHNE:

- Cyflwyniad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd.

2.4 Bydd yr hyfforddiant yma yn cael ei gynnal ar-lein yn ystod y Gaeaf hwn ac bydd bob uned yn para tua 2 awr. Y bwriad yw trefnu cyfarfodydd o'r Cydbwyllgor hwn i gynnal yr hyfforddiant. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei anfon maes o law.

3.0 AIL FRANDIO

- 3.1 Mae'r term "Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol" wedi ei gynnwys yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Pasiwyd y ddeddf yma gan y Llwyodraeth Lafur ar ôl y rhyfel er mwyn gwarchod yr ardaloedd arbennig yma ac yn achos y Parciau, hyrwyddo defnydd hamdden.
- 3.2 Dros y blynyddoedd mae cryn drafodaeth wedi bod am yr enw, yn rhannol oherwydd ei fod yn deitl hir a disgrifiadol ac yn ail oherwydd nad yw'n cynnwys y gair "enedlaethol" ac felly ddim yn cario yr un statws a'r Parciau rhywsut.
- 3.3 Yn ddiweddar mae adolygiad o'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE wedi ei gynnal yn Lloegr dan arweiniad y newyddiadurwr Julian Glover. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad fod achos cryf dros newid enw gweithredol yr AHNE i rhywbeth fyddai yn fwy bachog ac yn cynnwys y gair "enedlaethol".
- 3.4 Mae'r Gymdeithas Genedlaethol dros AHNE, a sefydlwyd i gynorthwyo'r AHNE yn y DU trwy hyrwyddo ymarfer da, addysg ac hyfforddiant, wedi bod yn rhan o'r drafodaethaeth am ddyfodol yr Parciau a'r AHNE yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Gymdeithas wedi bod yn cydgordio'r drafodaeth yn Lloegr am newid yr enw gweithredol yr AHNE i "Dirweddau Cenedlaethol".
- 3.5 Roedd y mwyafrif o ardaloedd yn Lloegr o blaid newid yr enw a bu i'r Gymdeithas hefyd gefnogi'r syniad. Yn dilyn hyn mae'r Gymdeithas wedi arwain ar ddatblygu pecynnau gwybodaeth, brandio a logos newydd i gyd-fynd gyda hyn. Bydd y Gymdeithas ei hun hefyd yn newid ei henw i Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol.
- 3.6 Mae trafodaeth ar y mater wedi bod ar y mater yng Nghymru. Yn gyffredinol mae cefnogaeth i'r bwriad ac mae'n ymddangos fod Llywodraeth Cymru yn gefnogol. Nid oes gorfodaeth i ddefnyddio'r teitl newydd, y brandio na'r logo sydd wedi ei ddatblygu fodd bynnag ac bydd yr enw swyddogol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn parhau.

4.0 ARGYMHELLIAD

- 4.1 Derbyn yr wybodaeth.